| Cyfenw | Rhif y Ganolfan | Rhif yr Ymgeisydd |
|---|---|---|
| Enw(au) cyntaf | | 2 |

TAG UWCH

1570N30-1

S24-1570N30-1

**DYDD MAWRTH, 21 MAI 2024 – BORE**

# IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT
## U2 Uned 3 – Safbwyntiau damcaniaethol ynghylch datblygiad plant a phobl ifanc

2 awr 30 munud

| | I'r Arholwr yn Unig | | |
|---|---|---|---|
| | **Cwestiwn** | **Marc Uchaf** | **Marc yr Arholwr** |
| **Adran A** | **1.** | **18** | |
| | **2.** | **22** | |
| **Adran B** | **3.** | **20** | |
| | **4.** | **22** | |
| | **5.** | **18** | |
| | **Cyfanswm** | **100** | |

1570N301 01

### CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du. Peidiwch â defnyddio beiro gel na hylif cywiro.

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd gwag priodol yn y llyfryn hwn. Os nad oes digon o le, defnyddiwch y tudalennau ychwanegol yng nghefn y llyfryn, gan wneud yn siŵr eich bod chi'n rhoi'r rhif cywir ar bob cwestiwn.

### GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae cwestiynau Adran A yn ymwneud â'r deunydd sydd wedi'i ryddhau ymlaen llaw.

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn. Dylech chi rannu eich amser yn briodol.

100 yw cyfanswm nifer y marciau sydd ar gael.

Cofiwch fod angen Cymraeg da a chyflwyniad trefnus a chlir yn eich atebion. Bydd ansawdd eich cyfathrebu ysgrifenedig, gan gynnwys defnyddio atalnodi a gramadeg yn gywir, yn cael ei asesu yn eich ateb i gwestiwn **5**.

JUN241570N30101

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**Astudiaeth achos i'w defnyddio gyda chwestiynau 1 a 2 yn Adran A**

Mae Aisha yn ferch 12 oed sydd wedi bod yn mynychu ysgol fawr yng nghanol dinas ers wyth mis. Mae Aisha a'i theulu yn ddinasyddion Affgan sydd wedi cael eu hailgartrefu yng Nghymru oherwydd yr amgylchiadau peryglus yn eu gwlad nhw. Mae hi'n siarad rhywfaint o Saesneg, ond dim llawer o Gymraeg. Mae Aisha wedi ei chael hi'n anodd addasu i'w hysgol newydd, ac mae'n cael trafferth gyda'i gwaith ysgol ac wrth wneud ffrindiau. Mae athro dosbarth Aisha yn poeni am y pethau canlynol:

- diffyg canolbwyntio mewn gwersi
- ddim yn cwblhau gwaith cartref
- addasu i'r ysgol
- hwyliau isel a thrist Aisha
- diffyg diddordeb mewn gweithgareddau ysgol
- agwedd anghyfeillgar (*unfriendly*) tuag at gyfoedion sydd wedi arwain at ddadlau ac anghytuno yn ystod gwersi
- rhyngweithio â'i chyfoedion.

Mae'r athro dosbarth wedi atgyfeirio Aisha at gwnselydd yr ysgol. Mae Aisha wedi dweud wrth y cwnselydd am rai o'i phroblemau wrth setlo yn yr ysgol. Mae hi hefyd yn dweud ei bod hi'n cael trafferth addasu i'r amgylchedd newydd a rhyngweithio â'i chyfoedion.

Yn ei hysgol yn Affganistan, roedd Aisha wedi ffurfio bond agos gyda'i hathrawon a hefyd gyda'i chyfoedion. Roedd ganddi lawer o ffrindiau i gymdeithasu gyda nhw, ac roedden nhw'n helpu ei gilydd i wneud eu gwaith cartref. Mae Aisha yn credu ei bod hi wedi ceisio gwneud ffrindiau, ond mae'n teimlo ei bod hi'n wahanol i'r disgyblion eraill. Mae Aisha eisiau creu perthnasoedd cadarnhaol (*positive relationships*) gydag athrawon, ond mae hi'n aml mewn trwbl am beidio cwblhau gwaith cartref, ac mae hi'n teimlo bod barn negyddol gan yr athrawon amdani.

Mae Aisha'n dweud wrth y cwnselydd bod ei mam yn sâl, a bod ei thad yn gweithio oriau hir mewn archfarchnad leol. Aisha sy'n gyfrifol am olchi dillad, coginio a gwneud tasgau eraill yn y cartref, yn ogystal â sicrhau bod ei phedwar brawd a chwaer iau yn mynd i'r ysgol. Mae Aisha yn aml i fyny'n hwyr yn y nos yn cwblhau'r tasgau hyn ac yn gofalu am ei mam, sy'n golygu nad oes ganddi lawer o amser i wneud gwaith ysgol na chymdeithasu gyda'i chyfoedion.

Mae'r teulu mewn trafferthion ariannol gan fod ei mam yn methu gweithio oherwydd ei salwch a bod ei thad yn gweithio am dâl isel. Mae'r teulu'n byw mewn fflat dwy ystafell wely sy'n orlawn (*overcrowded*), ond dydyn nhw ddim yn gallu fforddio symud i lety mwy addas.

Mae Aisha'n dweud wrth y cwnselydd ei bod hi'n poeni am ei gwaith ysgol. Yn Affganistan, roedd hi'n gwneud yn dda yn ei hastudiaethau (*studies*). Yng Nghymru, fodd bynnag, mae hi'n teimlo ar ei hôl hi (*behind*) o ran y gwaith o gymharu â'i chyfoedion, yn enwedig gan fod cymaint o'r pynciau mae hi'n eu hastudio yn wahanol.

Mae'r ysgol yn awyddus i gefnogi Aisha â'i hastudiaethau a'i helpu i ddatblygu ei sgiliau cymdeithasol ac emosiynol a gwneud ffrindiau gyda'i chyfoedion. Bydd cwnselydd yr ysgol yn parhau i weithio gydag Aisha i'w helpu i addasu i ddiwylliant yr ysgol a rhoi cyfle iddi siarad am ei phroblemau, ei meddyliau a'i theimladau.



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

**ADRAN A**

Atebwch **bob** cwestiwn.

**1.** Darllenwch yr astudiaeth achos am Aisha ac atebwch y cwestiynau isod.

(a) Un maes allweddol o ddatblygiad corfforol Aisha yw'r glasoed (*puberty*). Amlinellwch **dri** newid corfforol sy'n digwydd i ferched yn ystod y glasoed. [6]

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

1570N301
03



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

(b) Disgrifiwch beth yw prif nodweddion datblygiad emosiynol a chymdeithasol plentyn 12 oed, fel Aisha. [6]

............................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

(c) Mae’r athro dosbarth yn atgyfeirio Aisha at gwnselydd yr ysgol.
Esboniwch beth yw manteision posibl cwnsela o ran cefnogi Aisha i ddatblygu ymddygiad cadarnhaol. [6]

1570N301
05


© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

**2.** Er mwyn cefnogi datblygiad ac ymddygiad plant, mae'n bwysig bod ymarferwyr (*practitioners*) yn deall beth sy'n achosi ymddygiad heriol mewn plant a'r ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad plentyn.

(a) Aseswch sut byddai damcaniaeth Erikson am gyfnodau datblygiad seicogymdeithasol yn gallu esbonio rhywfaint o ymddygiad Aisha. [8]



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

(b) Disgrifiwch y ffactorau cymdeithasegol sy'n effeithio ar Aisha, a dadansoddwch effaith bosibl y ffactorau hyn ar ei datblygiad cyfannol (*holistic development*). [14]

1570N301 07

Arholwr yn unig



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

## ADRAN B

Atebwch **bob** cwestiwn.

**3.** Mae ymarferwyr yn cefnogi datblygiad cyfannol plant, sy'n cynnwys eu datblygiad corfforol, gwybyddol ac ieithyddol/iaith.

(a) Amlinellwch sut mae chwarae gweithredol rheolaidd (*regular active play*) yn gallu helpu plant i ddatblygu sgiliau bywyd ac arfer gydol oes (*lifelong habit*) o wneud ymarfer corff bob dydd. [6]

......................................................................................................................................................................

......................................................................................................................................................................

......................................................................................................................................................................

......................................................................................................................................................................

......................................................................................................................................................................

......................................................................................................................................................................

......................................................................................................................................................................

......................................................................................................................................................................

......................................................................................................................................................................

......................................................................................................................................................................

......................................................................................................................................................................

......................................................................................................................................................................

1570N301 09



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

(b) Aseswch sut mae chwarae anstrwythuredig (*unstructured play*) yn hybu datblygiad deallusol plentyn. [6]

..............................................................................................................................................................................

..............................................................................................................................................................................

..............................................................................................................................................................................

..............................................................................................................................................................................

..............................................................................................................................................................................

..............................................................................................................................................................................

..............................................................................................................................................................................

..............................................................................................................................................................................

..............................................................................................................................................................................

..............................................................................................................................................................................

..............................................................................................................................................................................

..............................................................................................................................................................................



ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

(c) Esboniwch pa mor bwysig yw ymlyniad (*attachment*) i ddatblygiad plant o adeg geni hyd at 3 oed. [8]

Arholwr yn unig

**4.** Mae chwarae yn sail i Fframwaith y Cyfnod Sylfaen.

(a) Esboniwch sut mae damcaniaeth Piaget yn helpu ymarferwyr i ddeall sut mae plant yn dysgu drwy chwarae. [6]



© WJEC CBAC Cyf.

(1570N30-1)

Arholwr yn unig

(b) Disgrifiwch gyfnodau chwarae (*stages of play*) plant o adeg geni hyd at 5 oed. [8]

................................................................................................................................................

................................................................................................................................................

................................................................................................................................................

................................................................................................................................................

................................................................................................................................................

................................................................................................................................................

................................................................................................................................................

................................................................................................................................................

................................................................................................................................................

................................................................................................................................................

................................................................................................................................................

................................................................................................................................................

................................................................................................................................................

................................................................................................................................................

................................................................................................................................................

................................................................................................................................................

Arholwr yn unig

(c) Gan gyfeirio at ddamcaniaeth Maslow, ystyriwch sut mae ymarferwyr yn bodloni anghenion cyfannol plant ifanc. [8]

Arholwr yn unig

**5.** Mae Jac yn 5 oed. Yn ddiweddar, mae wedi dechrau dangos ymddygiad heriol yn yr ysgol, fel taro (*hitting*), cnoi/brathu a dydy e ddim yn fodlon rhannu neu gymryd tro (*take turns*) gydag eraill.

Mae Jac wedi symud tŷ ac ysgol yn ddiweddar, ac mae ei rieni'n awgrymu efallai mai dyma'r rheswm dros y newid yn ei ymddygiad. Mae'r ysgol a rhieni Jac yn awyddus i'w gefnogi i ddatblygu patrymau ymddygiad cadarnhaol. Mae athro Jac yn awgrymu defnyddio'r dull addasu ymddygiad (*behaviour modification approach*), fel siartiau gwobrwyo.

Disgrifiwch y strategaethau sy'n cael eu defnyddio yn y dull addasu ymddygiad sy'n ceisio datblygu patrymau ymddygiad cadarnhaol mewn plant, a gwerthuswch effaith bosibl y strategaethau hyn ar Jac. [18]



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

**DIWEDD Y PAPUR**



© WJEC CBAC Cyf.

| Rhif y Cwestiwn | Tudalen ychwanegol, os oes ei hangen.<br>Ysgrifennwch rifau'r cwestiynau ar ymyl chwith y dudalen. |
|---|---|
| | |

Arholwr yn unig

| Rhif y Cwestiwn | **Tudalen ychwanegol, os oes ei hangen.**<br>**Ysgrifennwch rifau'r cwestiynau ar ymyl chwith y dudalen.** | Arholwr yn unig |
|---|---|---|
| | | |



ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**TUDALEN WAG**

**PEIDIWCH AG YSGRIFENNU AR Y DUDALEN HON**


© WJEC CBAC Cyf.

# TUDALEN WAG

# PEIDIWCH AG YSGRIFENNU AR Y DUDALEN HON



ⓗ WJEC CBAC Cyf.